Pwyllgor Cynghori Cafcass Cymru
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018
Swyddfeydd Cafcass Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

Yn bresennol:

Andy Wallsgrove	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru - ar ran Rachel Thomas - Cadeirydd Dros Dro
Paul Apreda	FNF Both Parents Matter Cymru
Eleri Butler	Cymorth i Ferched Cymru
Christopher Dunn	Voices from Care
Vivienne Laing	NSPCC (ar ran Des Mannion)
Sharon Lovell	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Nigel Brown	Cafcass Cymru
Matthew Pinnell	Cafcass Cymru
Beth Altman	Cafcass Cymru
Matt Wright	Cafcass Cymru
Rhianon James	Cafcass Cymru (ysgrifenyddes)

---

1. Croeso

Croesawodd Nigel Brown bawb i'r cyfarfod. Eglurodd nad oedd y Cadeirydd, Jackie Murphy, yn gallu bod yn bresennol a'i bod wedi anfon ei hymddiheuriadau. Gwnaeth Nigel gyflwyno Andy Wallsgrove a diolch iddo am gytuno i fod yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer y cyfarfod.

2. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Roedd y cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd yn cael eu harwain gan y Cadeirydd Dros Dro.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Jackie Murphy	Tros Gynnal Plant (Cadeirydd)
Sarah Coldrick	AFA Cymru
Catrin Cracroft	Cynrychiolydd Cymdeithas y Cyfreithwyr
Denise Inger	SNAP Cymru
Gareth Jenkins	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Des Mannion	NSPCC Cymru

HHJ Helen Mifflin	Y farnwriaeth
Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
James O'Reilly	Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Zoe Richards	Anabledd Dysgu Cymru
Dan Ronson	Y Cyngor Cyfryngu Teuluol
Rakshanda Shahzad	BAWSO
Hugh Simkiss	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Rachel Thomas	Comisiynydd Plant Cymru

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018 – cymeradwyo cyn cyhoeddi ar wefan Cafcass Cymru

Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

4. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Atgyfeiriadau a Pherfformiad

Dywedodd PA ei fod yn falch ynghylch pa mor gyflym y mae gwybodaeth diweddaraf adran 31 nawr ar gael ar wefan Cafcass Cymru.

Dywedodd NB fod Cafcass Cymru yn dal i ddatblygu'r gyfres o wybodaeth perfformiad a fydd yn parhau dros y 12 mis nesaf.

Rhoddodd MP drosolwg ar yr adroddiad perfformiad. Mae llwyth gwaith Cafcass Cymru yn parhau i gynyddu ac fe ganmolodd NB y staff am eu hymrwymiad i ymateb i'r her hon.

Ar y cyfan, mae ceisiadau cyfraith cyhoeddus wedi cynyddu 25% dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae'r cynnydd hwn, er yn llai, yn parhau. Mae'r cynnydd yn amrywio ar draws Cymru.

Datganodd SL fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn atgyfeiriadau eirioli yng Ngwent sy'n cyd-fynd â gwybodaeth perfformiad Cafcass Cymru.

Mae llwyth gwaith Cyfraith Breifat wedi cynyddu ledled Cymru ac yn enwedig yn ne Cymru.

Amlinellodd MP fod Cafcass Cymru wedi cwrdd â thri o'r pedwar dangosydd perfformiad allweddol (KPIs). Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gwrdd â'r targed ar gyfer KPI3 – adroddiadau adran 7 a wnaeth gwrdd â'u dyddiad ffeilio llys. Roedd MP yn cydnabod bod gwaith i'w wneud i wella hyn ond ychwanegodd, yng nghyd-destun llwythi gwaith sy'n cynyddu, fod hyn yn dipyn o her.

Diolchodd y Cadeirydd i MP am ei adroddiad. Ychwanegodd fod y fformat newydd yn glir iawn ac yn hawdd ei ddarllen.

Gofynnodd EB a fyddai'n bosibl cael data diwedd blwyddyn.

Cam gweithredu: NB i anfon data 2017-18 at aelodau'r Pwyllgor Cynghori

6. Rhaglen Arloesi Cafcass Cymru

Cytunwyd y byddai'r eitem agenda hon yn cael ei chynnwys o dan eitem agenda 8.

7. Diweddariad ar Ddiwygio Cyfiawnder Teuluol

Mae'n parhau'n annhebygol y bydd unrhyw ddiwygio sylweddol neu ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â'r System Cyfiawnder Teuluol yn ystod tymor y Llywodraeth bresennol.

Fe wnaeth NB ddwyn sylw'r aelodau at lansiad diweddar yr Adolygiad Gofal mewn Argyfwng dan arweiniad y sector, a gynhaliwyd gan Grŵp Hawliau'r Teulu, a oedd yn edrych ar y cynnydd mewn ceisiadau am orchmynion gofal a nifer y plant mewn gofal, a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin 2018. Bydd dolen at yr adroddiadau yn cael ei rhoi i'r holl aelodau.

Aeth MP i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ar 6 Mehefin lle roedd Syr Andrew McFarlane yn bresennol. Bydd Syr Andrew McFarlane, barnwr y Llys Apêl, yn cymryd swydd Llywydd yr Adran Deulu pan fydd Syr James Munby yn ymddeol ar 27 Gorffennaf.

8. Y dull gweithredu o ran gwaith cyfraith breifat

Gwnaeth Beth Altman, Pennaeth Gweithrediadau, De Cymru gyflwyniad yn dwyn y teitl: "Y Dull Arfer Gorau o ran Cyfraith Breifat: Ffocws ar y Plentyn". Cafwyd sesiwn holi ac ateb i ddilyn. Diolchodd y Cadeirydd i Beth am ei sesiwn gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol.

Cam gweithredu: BA i roi copïau o'r cyflwyniad i aelodau'r Pwyllgor.

9. Adolygiad Ymchwil a Chyfraith Achosion ar Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Roedd copïau o'r adolygiad llenyddiaeth wedi'u rhannu cyn y cyfarfod. Nodwyd bod yr adroddiad ar gael hefyd ar wefan Cafcass Cymru.

10. Unrhyw Fusnes Arall

Gwnaeth NB atgoffa'r aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Tachwedd yng Nghaerdydd ac yn dechrau am **9:30am.**

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau o Bwyllgor Cynghori Cafcass Cymru am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod.

TAFLEN WEITHREDU

Rhif eitem yr agenda	**Cam gweithredu**	**Yn arwain**
Eitem 5: Atgyfeiriadau a Pherfformiad	Nigel Brown i anfon data 2017-18 at y Pwyllgor Cynghori	Nigel Brown
Eitem 8: Y dull gweithredu o ran gwaith cyfraith breifat	Beth Altman i roi copïau o'r cyflwyniad i aelodau'r Pwyllgor.	Beth Altman